**Cynigion y Cabinet ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol, 2001-2**

**Datganiad i'r Cyfarfod Llawn**

1. Mae Rheol Sefydlog 31.10 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cabinet roi ei gynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol Westminster ger bron y Cyfarfod Llawn cyn 31 Mawrth bob blwyddyn; mae rheolau sefydlog 31.9 a 31.11 yn nodi ffurf y cynnig hwn a'r wybodaeth atodol sy'n angenrheidiol. Mae'r ddogfen hon yn bodloni'r gofyniad olaf hwn, ar gyfer y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Mawrth.

**Mesur Iechyd a Lles (Cymru)**

2. Byddai'r Mesur hwn yn caniatáu i'r Cynulliad gyflawni agweddau ar Gynllun yr NHS *Gwella Iechyd yng Nghymru* (a gyflwynwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror) yn llawn ac yn effeithlon. Ei brif effeithiau fyddai:

- gwneud darpariaeth gywir a chyfunol ar gyfer sefydlu **Partneriaethau Iechyd Lleol** yng Nghymru. Byddai'r rhain yn seiliedig ar Grwpiau Iechyd Lleol presennol, ond byddai angen cael cylch gwaith ehangach i gwmpasu'r gwaith o oruchwylio, darparu ac ymgymryd â iechyd cymunedol, sylfaenol a rhai gweithgareddau iechyd eilradd. Byddent yn dal cronfeydd rheoli asedion, yn cyflogi staff ac yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau megis awdurdodau lleol.

- sefydlu **panel cwynion annibynnol** i fynd ar ôl cwynion gan y rhai sy'n anfodlon gydag ymchwiliadau mewnol yr NHS. Byddai paneli o'r fath, ymhlith pethau eraill, yn cymryd cyngor clinigol a chyngor annibynnol arall, yn cyfweld y partïon dan sylw, yn gwneud argymhellion ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheiny y maent yn ymwneud â hwy gyflwyno adroddiad ar y camau a gymerwyd.

- diwygio ac ailenwi **Cynghorau Iechyd Cymunedol** yng Nghymru i wella tryloywder wrth recriwtio ac ymestyn eu swyddogaeth i gynnwys gofal sylfaenol, cartrefi nyrsio a meysydd eraill.

- sefydlu **Byrddau Cynllunio Strategol** i gyfarwyddo, monitro a chyflwyno adroddiadau ar gydweithio rhwng Grwpiau Iechyd Lleol (fel y'u diwygiwyd), Ymddiriedolaethau'r NHS ac awdurdodau lleol. Y Byrddau hefyd fyddai'r cyfrwng ar gyfer cydymffurfio â dyletswyddau presennol o ran cydweithio, er enghraifft yn Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998, Deddf Iechyd 1999 a Deddf Llywodraeth Leol 2000. Byddai un Bwrdd o'r fath ar gyfer pob un o'r 22 o ardaloedd awdurdodau unedol yng Nghymru.

- sefydlu corff unigol i ddisodli **Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd** (a ddiddymwyd gan Ddeddf Iechyd 1999) ac i ymgymryd ag unrhyw swyddogaethau newydd a gyflwynwyd gan Gyngor newydd y DU ar gyfer Nyrsys a Bydwragedd.

- sefydlu **Canolfan Iechyd i Gymru** ar y cyd â phartneriaid academaidd a phartneriaid sector cyhoeddus. Bwriedir i'w swyddogaethau gynnwys:

- fforwm ar gyfer cyngor aml-ddisgyblaethol ar beryglon iechyd;
- asesu risg o fygythion i iechyd;
- lledaenu ymchwil a thystiolaeth arall i ategu gwneud penderfyniadau;
- cefnogaeth i hyfforddiant aml-broffesiynol mewn iechyd cynaliadwy; a
- chysylltu â grwpiau aml-broffesiynol cenedlaethol a rhyngwladol.

3. Mae *Gwella Iechyd yng Nghymru* yn rhoi mwy o fanylion am gostau, manteision a chanlyniadau'r cynigion hyn.

**Mesur Addysg (Cymru)**

4. Byddai'r Mesur hwn yn helpu i sefydlu system addysg fwy cydlynol yng Nghymru gyda throsglwyddiad gwell rhwng y camau a mwy o sgôp i'r Cynulliad ymwneud â rhai agweddau ar gynllunio addysg. Byddai'n darparu ar gyfer:

- dyletswyddau newydd ar ysgolion, AALl, cwmnïau cynghori ar yrfaoedd ac eraill i leihau'r ymyrraeth a all godi yn y prif fannau trosglwyddo yn y system addysg;

- pwerau newydd i'r Cynulliad i newid y ddarpariaeth ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru; pwerau newydd ar gyfer safonau ac archwilio gwasanaethau gyrfaoedd mewn addysg uwch;

- trefniadau newydd ar gyfer cofrestru ysgolion annibynnol;

- creu tribiwnlys anghenion addysgol arbennig i Gymru a mwy o ber i'r Cynulliad gynllunio darpariaeth anfynych o AAA;

- cynnwys addysg bersonol a chymdeithasol yn y fframwaith cwricwlwm statudol yng Nghymru;

**Mesur Dydd Gyl Ddewi**

3. Byddai'r Mesur hwn yn gwneud Dydd Gyl Ddewi yn yl gyhoeddus yng Nghymru, drwy ddiwygio Deddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971. Os gweithredir y cynnig, byddai angen inni ymgynghori ymhellach cyn penderfynu a fyddai diwrnod o wyliau ar Ddydd Gyl Ddewi yn digwydd yn lle diwrnod o wyliau presennol, neu yn ddiwrnod ychwanegol o wyliau.
4. Ni fyddai effaith ar wariant y Cynulliad yn deillio o'r cynnig hwn.

**Mesur y Cyfrifiad (Diwygio) (Cymru)**

5. Byddai angen caniatâd y Cynulliad i gynnwys ffurflenni'r Cyfrifiad a ddosbarthwyd yng Nghymru ar y Mesur hwn cyn y gellid eu cyhoeddi, drwy ddiwygio Deddf y Cyfrifiad 1921. Gallai'r Cynulliad sicrhau bod y Cyfrifiad yn adlewyrchu hunaniaeth genedlaethol Cymru a hefyd bod ffurflenni'r Cyfrifiad yn adlewyrchu realiti bywyd yng Nghymru yn gywir ac y gellid eu defnyddio'n llawn i gefnogi llunio'r polisi yng Nghymru.
6. Ni fyddai effaith ar wariant y Cynulliad yn deillio o'r cynnig hwn.